*This document is available in English*

**Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **15 Medi 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Dawn Docx** |
| Pwnc | **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Trefniadau Llywodraethiant ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Tynnu sylw'r Aelodau at y ffaith fod ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gyhoeddi ynghylch y Trefniadau Llywodraethiant ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn y dyfodol.

## ARGYMHELLION

2 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi cynnwys yr ymgynghoriad; ac yn**
**ii) Cytuno i fynd i weithdy i graffu ar y cynigion a chyflwyno ymateb wedi'i ddrafftio ar ran yr Awdurdod, yn nodi barn yr Aelodau ynglŷn â'r cynigion.**

## CEFNDIR

3 Cafodd y trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru eu sefydlu drwy gyfrwng tri Gorchymyn Cyfuno yn 1996. Yn sgil y rhain sefydlwyd yr Awdurdodau Tân ac Achub presennol a'r dull cyllido cyfunol sy'n gweithio drwy godi ardoll ar bob Awdurdod Lleol cyfansoddol.

4 Yn 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) bapur gwyn o'r enw "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub Cymru". Bydd rhai Aelodau'n cofio, ar ôl cyfnod o ymgynghori, mai'r penderfyniad oedd bwrw ymlaen â'r cynigion ynghylch cyllid yn unig, ond ni ddaeth y rhain i fod ychwaith oherwydd y pandemig yn 2020.

5 Yn 2024 ymyrrodd Llywodraeth Cymru yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) a chyflwyno Comisiynwyr i ddisodli'r Awdurdod Tân ac Achub. Yn yr un flwyddyn, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau llywodraethiant y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mewn ymateb i'r ddau ddigwyddiad hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried opsiynau ar gyfer newid ac yn ddiweddar maent wedi cyhoeddi cynigion newydd ynghylch llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

**GWYBODAETH**

6 Y bwriad oedd cynnal yr ymgynghoriad 12 wythnos dros yr haf, ond gan fod oedi wedi bod o ran y dyddiad cyhoeddi bydd y cyfnod hwn bellach yn ymestyn i'r hydref.

7 Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio wedi ymgysylltu â'r Cadeiryddion, y Prif Swyddogion Tân a'r Undebau Llafur drwy gyfrwng y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, lle cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau am y cynigion, fel y gellid disgwyl. Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet atgoffa'r aelodau fod y cynigion yn y papur yn cwmpasu newidiadau y gellid eu cyflwyno'n awr, yn ystod y tymor hwn yn y Senedd, yn hytrach nag opsiynau a fyddai'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol yn nhymor nesaf y Senedd.

8 Mae'r cynigion wedi'u hamlinellu o amgylch tair thema:

a) Aelodaeth Awdurdodau Tân ac Achub neu Fyrddau.
b) Cyllid
c) Arolygu Gwasanaethau Tân ac Achub

9 Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 29 Awst 2025, ac fe'i rhannwyd â'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru - Diwygio awdurdodau tân ac achub yng Nghymru 2025 | LLYW.CYMRU

10 Cynigir y dylid cynnal gweithdy gyda'r Aelodau i ganfod eu safbwyntiau ac i lunio eu hymateb i'r ymgynghoriad.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r papur hwn yn cyflwyno cynigion sy'n ceisio gwella trefniadau llywodraethiant o amgylch Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. |
| Cyllideb | Gall y mecanweithiau ar gyfer cytuno ar y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub achosi gostyngiad mewn cyllid. |
| Cyfreithiol | Gellir gweithredu'r cynigion hyn o fewn y gorchmynion cyfuno presennol ac nid oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer. |
| Staffio | Gallai unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb fod â goblygiadau staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amh. |
| Risgiau | Gallai lleihau nifer yr aelodau a benodir gan awdurdodau lleol leihau'r craffu lleol ar Wasanaethau Tân ac Achub. |